

# Ynghanol y cyfan

*“Yn y ddinas bydd gorsedd Duw a’r Oen, a’i weision yn ei wasanaethu.”  
(adn. 3)*

## Beth am ddarlenn Datguddiad 22:1–11 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i edrych ar y gwirionedd nad lle i addoli yn unig yw’r nefoedd, ond hefyd yn lle i weithio yn barhaus. Onid yw gwaith yn dwyn blinder? Mae’n wir ei fod yma ar y ddaear, ond nid yn y nefoedd. Yr oeddem yn sôn ddoe na fydd Duw byth yn ddi-waith nac ychwaith yn ymddeol. Fe ddarluniodd Thomas Carlyle, yr arlunydd, Dduw fel un oedd yn eistedd ar orsedd tragwyddoldeb yn gwneud dim. Nid felly yr wyf yn ei ddychmygu. Gwelaf ef fel gweithiwr fydd yn cynnwys ei blant yn ei waith gydag ef, yn eu cynnwys mewn gwaith fydd yn arddangos pwrpas ac yn eu bodloni.

Mor wahanol yw darlun Thomas Carlyle i eiriau Henry Ward Beecher, y pregethwr enwog o’r Unol Daleithiau. Wrth gerdded gyda’i dad Lyman Beecher mewn mynwent unwaith, dywedodd: “Rwy’n tybied y byddant yn fy nwyn i allan yma ryw ddiwrnod ac yn fy ngadael, ond ni fyddaf yn aros yma.” “Wel, ble fyddi di?” gofynnodd ei dad. “Dwi ddim yn siŵr iawn,” atebodd, “ond rhywle yn ei chanol hi yn gweithio dros Dduw.” A dyna’r lle yn union y byddwch chi a fi, reit yn ei chanol hi.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Rhuf. 8:1–29; Ioan 6:38; Phil. 3:21; Col. 3:4; Dat. 22:5

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd pwrpas yr Arglwydd Iesu?
2. Beth yw pwrpas Duw i ni?

## Gweddi

Arglwydd, mae meddwl am waith heb flinder braidd yn anghredadwy, ac eto rwy’n gwybod fod hyn am fod yn wir. Mae fy nghalon yn llefain am ddydd o orffwys a buddugoliaeth. Gwawria, O hyfryd ddydd. Tyrd, felly, Arglwydd Iesu. Amen.